Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Sir Ddinbych

Ar 2il o Hydref 2013 yn Ysgol y Llys, Prestatyn

1. Presennol:

Ruth Williams	Menter Iaith Sir Ddinbych
Iorwen Jones	Menter Iaith Sir Ddinbych
Cathryn Griffith	Menter Iaith Sir Ddinbych
Gwion Tomos-Jones	Menter Iaith Sir Ddinbych
Nerys Davies	Cyfarwyddwyr
John Glyn Jones	Cyfarwyddwyr
Dylan Jones	Cyfarwyddwyr
Emrys Wynne	Cyfarwyddwyr
Caryl Vaughan	Cyfarwyddwyr
Natalie Downes	Cyfarwyddwyr
Owain Morris	Cyfarwyddwyr
Stanley Lyall	Cyfarwyddwyr
Emrys Wynne	Cyfarwyddwyr
Cerian Ellis	Coleg Cambria
Catrin Roberts	G'sanaeth G'bodaeth Teuluoedd Sir Ddinbych
Elin Jones	Twf
Menai Edwards	Twf
Ceri Hulmes	Mudiad Meithrin
Gareth Williams	Tîm Ymgynghorol y Gymraeg
Dyfan Phillips	Pennaeth Ysgol y Llys
Arwel Roberts	Rhuddlan
Rhys Meirion	Siaradwr Gwadd
Sandra Williams	Cyfieithydd
Anwen	Ysgol y Llys
Non Cooper	Urdd Gobaith Cymru
Marian Jones	Urdd Gobaith Cymru
Arfona	Ysgol y Llys
Nia Pritchard Williams	Dirprwy Ysgol y Llys
Sioned Foulkes	Cyngor Tref Rhuthun
Gwyneth Kensler	Cyngor Sir Ddinbych
Karen Morris	Ysgol y Llys

2. Ymddiheuriadau:

Dr Rhian Parry	Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
Sian Rogers	Urdd Gobaith Cymru
Comisiynydd yr Heddlu	
Alwyn Jones-Parry	Cyfarwyddwyr
Llŷr Huws Griffiths	Aelod Cynulliad
Siwan Hywel	Uned Gymraeg Llywodraeth Cymru
Iddon Edwards	Uned Gymraeg Llywodraeth Cymru
Mark Dixon	Cyngor Sir Ddinbych
Ceri Hughes	Cadwyn Clwyd
Bethan Hughes	Cyngor Sir Ddinbych
Hywyn Williams	Cyngor Sir Ddinbych
Bryn Davies	Cyngor Cymuned Llandyrnog
Nan Edwards	Cynllun Gweithredu Iaith Rhuthun
Sian Lloyd Parry	Cynllun Gweithredu Iaith Corwen
Cyng. Huw Jones	Cyngor Sir Ddinbych
Lorna Jenner	Ymgynghorwr Amgueddfa Atgofion
Anwen Williams	Merched y Wawr

3. Croesawodd Nerys Davies (Cadeirydd y Fenter) Ruth Williams fel Prif Swyddog Newydd y Fenter ers 4ydd o Fedi 2013.

Rhoddodd Ruth grynodeb o'i chefndir i ni ac aeth ati i roi darlun o'i gweledigaeth ar gyfer y Fenter, hoffai weld llysgenhadon ar gyfer y Gymraeg yn hyrwyddo'r iaith yn y gymuned ac mae'n gobeithio annog yr arferion da hyn. Byddai'n braf adeiladau ar y bwrlwm ddaeth yn sgil yr Eisteddfod eleni. Mae angen dangos bod gwerth economaidd i'r iaith a hyrwyddo'r syniad hynny.

Cyflwynodd Cathryn adroddiad ar y gwaith mae hi wedi bod yn ei wneud ar yr Amgueddfa Atgofion. Pwrpas y prosiect yw casglu gwybodaeth a hanesion llafar sy'n rhoi darlun o'r diwydiant ffermio yn Sir Ddinbych dros y blynyddoedd. Mae wedi cael cyfle i gyfweld/sgwrsio gydag ambell i gymeriad yn sgil eu gwaith.

4.Roedd gan bawb gopi o gofnodion Cyfarfod Blynyddol 2012 o'u blaenau. Cynigwyd bod y cofnodion y gywir oni bai am y canlynol:

a) Elin Jones oedd yn cynrychioli Twf nid Menai
b) Roedd Gwyneth Kensler yn bresennol yn y cyfarfod ond nid oedd ei henw i lawr.

5. Dim materion yn codi o'r cyfarfod.

6. Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol a mabwysiadwyd y rhain.

7. Darllenwyd llythyr gan Richard Roberts o Hill a Roberts, arolygwyr cyllid y Fenter gan Stanley Lyall ar ran Richard oedd yn nodi bod y Fenter wedi cael blwyddyn lwyddiannus iawn eto. Roedd Richard yn crynhoi trwy ddweud bod sefyllfa ariannol y fenter yn gryf ac mae hyn yn ddiolch i'r swyddogion a'r cyfarwyddwyr. Ymddiheurai nad oedd yn gallu bod yn bresennol.

8. Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiswyddiadau ac mae'r bwrdd presennol yn fodlon cario 'mlaen

9. Nid oedd unrhyw enwebiadau am gyfarwyddwyr newydd wedi dod ymlaen.

10. Ymddiswyddodd y swyddogion i gyd, a chymerodd Ruth yr awenau, cyflwynodd argymhellion y bwrdd ar gyfer y swyddi fel y canlynol am flwyddyn 2013-2014

Cadeirydd:	John Glyn Jones
Is-gadeirydd:	Emrys Wynne
Trysorydd:	Stanley Lyall
Ysgrifennydd:	Caryl Vaughan
Arolygwyr Annibynnol:	Cyfrifydd Hill a Roberts, Rhuthun

Nid oedd yn unrhyw wrthwynebiad i unrhyw un o argymhellion y bwrdd a chynigwyd ac eiliwyd pob un o'r enwebiadau.

11. Cyflwynodd John Glyn, y cadeirydd newydd ein siaradwr gwadd sef, Rhys Meirion. Cafwyd cyflwyniad difyr iawn ganddo yn olrhain hanes ei yrfa fel canwr opera a sut y mae iaith wedi ei helpu a'i gael mewn helbwl ar ambell i achlysur!!!

12. Cynigwyd y diolchiadau gan Nerys Davies.